

Datganiad yn Gwrthwynebu Anffurfio Organau Cenhedlu Menywod

2016

Camdrin plant yw Anffurfio Organau Cenhedlu Menywod (FGM) ac yn ymarfer eithriadol o niweidiol gyda goblygiadau iechyd enbyd i ferched a menywod. Bydd rhai merched yn marw o golli gwaed neu heintiad fel canlyniad uniongyrchol i'r driniaeth. Bydd rhai merched sydd wedi dioddef FGM yn debygol hefyd o gael anhawster rhoi genedigaeth ac amryw yn dioddef o drawma seicolegol hirdymor.

Diben y datganiad hwn: Dylech fynd â'r datganiad hwn gyda chi pan ewch dramor. Gallwch ei ddangos i'ch teulu. Mae'n ei gwneud yn glir bod FGM yn **drosedd ddifrifol** yn y DU gyda'r gosb uchaf yn 14 mlynedd o garchar i unrhyw un a ddyfarnir yn euog.

Gall eich rhieni, neu bwy bynnag sy'n gofalu amdanoch, fod yn euog o drosedd hefyd os methant â'ch diogelu rhag dioddef FGM.

Cadwch y datganiad hwn yn ddiogel:

Dylech fynd â'r datganiad hwn gyda chi bob amser – yn enwedig pan ewch dramor.

Beth yw FGM: FGM yw anffurfio organau cenhedlu allanol merched am resymau anfeddygol. Weithiau caiff ei alw'n enwaedu benywaidd neu 'sunna'.

Cyfraith y DU: Mae FGM yn drosedd yn y DU¹.

- Hyd yn oed os bydd rhywun yn cael ei chymryd dramor i gael FGM, mae'n parhau'n drosedd yn y DU os cyflawnir yr anffurfio gan ddinesydd neu breswylydd o'r DU.
- Mae'n drosedd hefyd os bydd dinesydd o'r DU neu breswylydd yno'n cael dinesydd neu breswylydd nad yw'n dod o'r DU i gwblhau'r FGM dramor ar ddinesydd neu breswylydd o'r DU.

1 Yng Nghymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon, mae'r ymarfer yn anghyfreithlon dan Ddeddf Anffurfio Organau Cenhedlu Menywod 2003. Yn yr Alban mae'n anghyfreithlon dan Waharddiad Deddf Anffurfio Organau Cenhedlu Menywod 2005.

- Ac os cyflawnir FGM yn erbyn merch sydd dan 16 oed, bydd pob unigolyn sy'n gyfrifol am y ferch ar yr adeg berthnasol yn euog o'r drosedd².

Cosbau Troseddol: Bydd unrhyw un a geir yn euog o drosedd FGM – neu o helpu rhywun i gyflawni un – yn wynebu 14 mlynedd o garchar, dirwy, neu'r ddau.

Bydd unrhyw un a geir yn euog o drosedd FGM – neu o helpu rhywun i gyflawni un – yn wynebu 7 mlynedd o garchar, dirwy, neu'r ddau.

Cymorth a chefnogaeth: Os ydych yn pryderu y gall hyn ddigwydd i chi neu i rywun yr ydych yn ei hadnabod, gallwch siarad yn gyfrinachol ag athro, doctor, nyrs ysgol, gweithiwr cymdeithasol, swyddog o'r heddlu, neu rywun proffesiynol o'r byd addysg neu ofal cymdeithasol. Byddant yn gallu'ch helpu, eich cefnogi a'ch diogelu. Os ydych yn ddioddefwr FGM ac yn adrodd hynny i'r heddlu, cewch fod yn anhysbys am weddill eich oes o'r adeg y cyflwynir yr honiad. Golyga hynny na fydd hi'n bosib cyhoeddi unrhyw wybodaeth a allai'ch amlygu fel dioddefwr FGM, hyd yn oed os na fydd yr achos yn cyrraedd y llys.

Os ydych yn y DU ac yn pryderu y gallech gael eich cymryd dramor ar gyfer FGM **ffoniwch yr heddlu ar 999.**

Os ydych chi dramor ac angen cymorth neu gyngor ffoniwch **Y Swyddfa Dramor a Chymanwlad ar +44 (0) 20 7008 1500**

Gallwch gael cymorth a chefnogaeth hefyd ar

Linell Gymorth FGM yr NSPCC:

0800 028 3550

E-bost: fgmhelp@nspcc.org.uk

Childline

Ffôn: 0800 1111

www.childline.org

Equality Now

(yn Nairobi, Kenya a Llundain, DU)

Ffôn (Llundain): +44(0) 20-7304 6902

Ffôn (Nairobi): + 254 20-271-9832

www.equalitynow.org

© Hawlfraint y Goron 2016

